**LC401A**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion manwl ynghylch paratoi cynlluniau datblygu addysg yn unol â'r gofyniad a osodwyd ar bob awdurdod addysg lleol gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Cyflwynwyd adroddiad ar y rheoliadau hyn o'r blaen i'r Pwyllgor yng nghyd-destun drafft cynharach a osodwyd gerbron y Cynulliad ond nad aeth ymhellach na hynny. Felly mae'r adroddiad presennol yn ymwneud â'r rheoliadau fel y cawsant eu gosod am yr eildro.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael y cyfle i edrych ar ddrafft cynharach o'r rheoliadau, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth. Nid oes felly unrhyw bwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Ebrill 2002